**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**25 CHWEFROR 2004**
**EITEM RHIF 4 AR Y RHAGLEN**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# SIARAD CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Ystyried gweithredu siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio a chytuno protocol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Efallai y bydd yr Aelodau yn cofio bod adroddiad gan y Prif Weithredwr i gyfarfod o'r Panel Moderneiddio ar 8fed Rhagfyr 2003 yn nodi'r sgôp ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Roedd hwn yn cynnwys cyfeiriad at y Pwyllgor Cynllunio. Yng nghyfarfod y Panel Moderneiddio ar 9fed Chwefror 2004 cytunwyd yr agwedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn a hefyd y protocol a awgrymwyd. Cyfeiriwyd at hyn hefyd mewn adroddiad i'r Cyngor Sir ar 20fed Ionawr 2004 gan y Prif Weithredwr. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cael cynnydd ar fater siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio.

2.2 Adlewyrchir thema'r agenda foderneiddio i annog pobl i chwarae mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n eu heffeithio yn y duedd ymhlith awdurdodau cynllunio lleol Cymru i fabwysiadu siarad cyhoeddus yn y pwyllgor cynllunio. Er ym mis Mehefin 2003 dim ond 6 allan o'r 22 awdurdod a oedd wedi gweithredu cynllun, roedd nifer o Gynghorau eraill yn ystyried y syniad ac mae Wrecsam wedi mabwysiadu trefn o'r fath yn ddiweddar. Ymwelodd swyddogion â Phwyllgor Cynllunio Wrecsam ar 9fed Chwefror i weld siarad cyhoeddus yn gweithredu. Roedd yn gweithio'n dda.

2.3 Mae awdurdodau sydd wedi cyflwyno siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Cynllunio wedi derbyn canmoliaeth gan Arolygwyr Gwerth Gorau a Rhaglen Gwella Cymru. Cefnogir yr egwyddor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol, gyda'r mater yn cael ei drafod yn eu dogfen ar gywirdeb a chynllunio.

2.4 Y manteision amlwg yw bod pobl yn teimlo eu bod yn chwarae mwy o ran yn y broses o gymryd penderfyniadau a bod hyder y cyhoedd yn gyffredinol yn cael ei gynyddu, a bod lobïo uniongyrchol yn lleihau o ganlyniad.

2.5 Fodd bynnag, i sicrhau nad yw cyfarfodydd y pwyllgor cynllunio yn mynd yn drwsgl ac anodd eu rheoli, mae'n bwysig sefydlu protocol clir o ran pwy sy'n cael siarad, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer cynghorau tref a chymuned, gwrthwynebwyr trydydd parti ac ymgeiswyr neu eu hasiantwyr. At hyn, er mwyn cael cydraddoldeb, dylai'r amser a ganiateir ar gyfer cyflwyniadau fod yn union yr un fath.

2.6 Fel **atodiad** i'r adroddiad hwn mae protocol a awgrymir y dylid ei ddefnyddio ar gyfer siarad cyhoeddus. Mae'n seiliedig ar y protocol a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol. Bydd taflen yn cael ei chynhyrchu yn cynnwys y protocol.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Bod yr Aelodau yn argymell i'r Cyngor Sir bod siarad cyhoeddus yn cael ei fabwysiadu yn y Pwyllgor Cynllunio am gyfnod prawf cyn etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mehefin, gan gychwyn ar 21ain Ebrill 2004.

3.2 Bod y protocol ar gyfer siarad cyhoeddus yn seiliedig ar y cynnig sydd ynghlwm.

